Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 11 Rhagfyr 2019

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 19 Tachwedd 2019 (copi'n amgaeedig).

**5 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B**

I ystyried yr adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (copi i ddilyn) yn ceisio cymeradwyaeth y Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**6 CYNIGION I DDIWYGIO CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL** (Tudalennau 13 - 20)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol ar gyfer Cynllunio, Gwarchod Y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o'r diwygiadau i'r cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cynllunio Strategol.

**7 POLISÏAU CYFLOGAETH** (Tudalennau 21 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Safonau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno dau bolisi cyflogaeth i'w mabwysiadu.

**8 GWEITHREDU MODEL DARPARU AMGEN AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU HAMDDEN: PRYDLESU EIDDO** (Tudalennau 125 - 188)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ganiatáu 16 prydles, un ar yfer cyfnod o 10 mlynedd ar rent pitw, i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar delerau a nodir o fewn yr adroddiad.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 189 - 212)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 213 - 218)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 CYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR DWYRAIN Y RHYL** (Tudalennau 219 - 232)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi'n amgaeedig) yn ceisio awdurdodiad y Cabinet i amrywio'r cytundeb cyn-adeiladu ar sail gwerth cytundeb diwygiedig.

**12 CYTUNDEB TRWYDDEDU MICROSOFT ENTERPRISE**

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol (copi i ddilyn) yn ceisio penderfyniad mewn perthynas â dyfarnu Cytundeb Trwyddedu Microsoft ar gyfer yr awdurdod.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned